



## Tystysgrif Lefel 3 CILEx yn y Gyfraith ac Ymarfer (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Lefel 3 yn y Gyfraith ac Ymarfer yn cydnabod y nifer cynyddol o fyfyrwyr sydd naill ai â diddordeb mewn cyflwyniad byr ond cryno i arferion cyfreithiol, neu sydd â gofynion dysgu penodol mewn maes ymarfer cyfreithiol. Mae'r cymhwyster hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd eisiau ennill cymhwyster lefel mynediad, efallai fel opsiwn mwy ymarferol o gymharu â chwrs Safon Uwch yn y gyfraith; y rhai sydd eisiau ennill cymhwyster i gynorthwyo gyda chael troed yn nrws y proffesiwn cyfreithiol, paragyfreithwyr a gweinyddwyr cyfreithiol mewn cwmnïau cyfreithiol sy'n dymuno datblygu i rôl trin ffeiliau, ar gyfer gwybodaeth am bwnc gan y rhai sy'n gweithio y tu allan i'r proffesiwn cyfreithiol mewn sefydliadau sy'n delio â materion cyflogaeth neu gytundebol, adfer dyledion, benthyca morgeisi, anaf personol, yswiriant neu wasanaethau plant.

Mae 5 uned i gyd. Dyma'r pynciau sy'n cael sylw:

Cyflwyniad i'r Gyfraith ac Ymarfer: esboniad o ddiben y gyfraith, o ble mae'n dod a sut mae'n cael ei gweithredu, opsiynau eraill yn lle'r llysoedd ac effaith yr Undeb Ewropeaidd a Hawliau Dynol ar ein cyfreithiau ni.

Sgiliau Ymchwil Cyfreithiol: mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y sgiliau gofynnol i ymchwilio i'r gyfraith a'i defnyddio. Mae hefyd yn gofyn am allu i gyfathrebu syniadau cymhleth mewn ffordd broffesiynol a manwl gywir.

Sgiliau Gofal Cleient: mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y sgiliau cysylltiedig â bod yn gyfreithiwr yn delio gyda chleientiaid. Rhaid i chi ystyried a defnyddio'r rhwymedigaethau ymarferol, moesegol a phroffesiynol, cyfathrebu gwybodaeth dechnegol a gallu nodi materion mewn cyfarfod.

Ceir dwy uned ychwanegol - un Opsiwn uned astudio ymarferol ac un Uned Astudio Cyfraith Gysylltiedig. Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei osod a'i asesu ar lefel Safon Uwch. Mae'r rhan fwyaf o unedau'n cynnwys arholiad. Mae'r unedau Sgiliau'n seiliedig ar waith cwrs. Cynhelir yr arholiadau a chyflwynir gwaith cwrs ym misoedd Ionawr a Mehefin

### Gofynion Mynediad

Er mwyn astudio'r Dystysgrif Lefel 3 rhaid cael isafswm o 4 TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith. Un noson yr wythnos, 5pm-9pm, am tua 32 wythnos.

Coleg Afan	<b>01639 648200</b>	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	<b>01686 614400</b>	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	<b>01639 648000</b>	Neath College
Coleg Y Drenewydd	<b>01686 614200</b>	Newtown College



## Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r dystysgrif yn llwyddiannus, byddwch yn gallu symud ymlaen i'r ail flwyddyn: Diploma Lefel 3 yn y Gyfraith ac Ymarfer.

## Asesiad

Asesir yr uned Cyflwyniad i'r Gyfraith ac Ymarfer gan arholiad aml-ddewis

Asesir y Sgiliau Gofal Cleient a'r Sgiliau Ymchwil Cyfreithiol gan waith cwrs

Asesir uned y gyfraith a'r uned ymarfer cysylltiedig drwy arholiad ysgrifenedig

Cynhelir yr arholiadau a chyflwynir gwaith cwrs ym misoedd Ionawr a Mehefin.

## DULL ASTUDIO

Rhan-Amser

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

Coleg Afan	<b>01639 648200</b>	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	<b>01686 614400</b>	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	<b>01639 648000</b>	Neath College
Coleg Y Drenewydd	<b>01686 614200</b>	Newtown College